**TAFLEN BENDERFYNIAD**

**Dyddiad y Penderfyniad:** 26 Chwefror 2020

---

**PWNC**

Eitem 5:CATEGOREIDDIO CENEDLAETHOL

---

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad gan fynegi pryder am y drefn yn genedlaethol. Gofynnwyd i'r Aelodau'r Cyd-Bwyllgor i godi eu pryderon gyda'r Gweinidog Addysg yng Nghyfarfod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.  Gofynnwyd hefyd i'r Bwrdd Rheoli i gynnal adolygiad ar y drefn yn lleol.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae'r broses gategoreiddio yn un mae Llywodraeth Cymru yn y broses o'i adolygu o fewn trefniadau gwerthuso a gwella.   Caiff pob ysgol gynradd, uwchradd ac arbennig eu rhoi mewn un o bedwar categori lliw mewn perthynas â chefnogaeth. Bydd pob ysgol yn derbyn rhaglen gefnogaeth wedi'i theilwra ar sail y categorïau hyn. Mae rhieni a'r wasg yn camddehongli lliwau sydd ynghlwm â'r categori cefnogaeth pan mae'r categoreiddio yn cael ei gyhoeddi ar 'Fy Ysgol Leol'.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol..

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

---

## TAFLEN BENDERFYNIAD

**Dyddiad y Penderfyniad:** 26 Chwefror 2020

---

**PWNC**

Eitem 6:CYLLIDEB GwE 2019-20 - ADOLYGU CHWARTER 3

---

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd yr adroddiad.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae angen diweddaru aelodau'r Cyd-bwyllgor ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidebol 2019/20.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

---

# TAFLEN BENDERFYNIAD

**Dyddiad y Penderfyniad:** 26 Chwefror 2020

---

**PWNC**

Eitem 7:CYLLIDEB GwE 2020-2021

---

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd mabwysiadu'r gyllideb sylfaenol ar gyfer 2020/21 fel y cyflwynwyd yn Atodiad 1 o'r adroddiad.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn gweithredu'n effeithiol, mae'r Cyd-Bwyllgor angen mabwysiadu'r gyllideb sydd ei chreu ar gyfer cyllido GwE ar gyfer 2020/21.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD**

**Dyddiad y Penderfyniad:** 26 Chwefror 2020

**PWNC**

Eitem 8:GRANT GWELLA ADDYSG - ADOLYGIAD

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd:

1. Oedi wrth ystyried adolygu dosbarthiad cyllid Cyfnod Sylfaen y Grant Gwella Addysg nes bydd Llywodraeth Cymru wedi crisialu ei sefyllfa ar drosglwyddo grant y cyfnod sylfaen, neu beidio, yn y pendraw.
2. Cynnal adolygiad o ddosbarthiadau cyllid Effeithlonrwydd Ysgol y Grant Gwella Addysg
3. Adolygu defnydd presennol o elfennau'r Grant nad ydynt wedi'u dirprwyo.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn 2015, penderfynodd Llywodraeth Cymru i gyfuno 11 o ffrydiau cyllid grant oedd yn bod eisoes i mewn i un prif grant, sef Grant Gwella Addysg. Roedd rhai o'r grantiau yn rhai cyffredinol ac eraill wedi'u targedu at ysgolion mewn amgylchiadau neilltuol. Bu i rai grantiau gael eu dirprwyo yn gyfan gwbl i ysgolion tra roedd eraill yn cael eu cadw yn ganolog gan yr awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau wedi'u targedu i ysgolion neu staff ysgolion.

Mae'r grant yn parhau i gael ei ddyrannu ar sail hanesyddol ac mae'r sefyllfa ar hyn o bryd yn peri risg i'r consortiwm ac fe'i nodir yn y gofrestr risg. Mae angen sicrhau fod dulliau lliniaru priodol ar waith i reoli'r risg.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD**

**Dyddiad y Penderfyniad:** 26 Chwefror 2020

---

**PWNC**

Eitem 9:GRANT GWELLA ADDYSG 2020-2021

---

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd gohirio'r penderfyniad er mwyn cael arweiniad gan Brif Weithredwyr y rhanbarth ar ariannu adnoddau ychwanegol ar gyfer Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg Wrecsam ac yna bydd cyfarfod brys yn cael ei gynnal i wneud penderfyniad ar y mater.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae GwE yn derbyn dyraniad dangosol o £27,103,164 ar gyfer Grant Gwella Addysg yn 2020/21, mae hyn yn dilyn cadarnhad gan Lywodraeth Cymru fod cynnydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Disgwylir i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei chyllideb derfynol ar 25 Chwefror.

Ychwanegwyd fod amodau a'r telerau presennol yn nodi bod Ymgynghorwyr Her yn cynnig cefnogaeth a her i ysgolion i sicrhau fod cynlluniau datblygu ysgol yn adlewyrchiad priodol o'u taith at welliant a blaenoriaethau lleol.

Mae angen adnoddau ychwanegol fel rhan o Gynllun Gweithredu Ôl-arolwg Wrecsam a gofynnwyd i'r Cydbwyllgor ystyried ffynonellau adnoddau ychwanegol i ariannu'r gost ychwanegol yma.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD**

**Dyddiad y Penderfyniad:** 26 Chwefror 2020

---

**PWNC**

Eitem 10:CYNLLUN BUSNES 2019-20 - ADRODDIAD MONITRO CHWARTER 3

---

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd yr adroddiad monitro ar gyfer chwarter 3.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae'r cynllun busnes rhanbarthol yn nodi'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwelliant ar draws y rhanbarth. Adroddir yn chwarterol ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes i'r Cyd-bwyllgor.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD**

**Dyddiad y Penderfyniad:** 26 Chwefror 2020

---

**PWNC**

Eitem 11:CYNLLUN BUSNES GwE 2020-2023 - BLAENORIAETHAU RHANBARTHOL

---

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd y Cynllun Busnes drafft a'r blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer 2020-2023.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae'r cynllun busnes rhanbarthol yn nodi'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwelliant ar draws y rhanbarth. Mae'r blaenoriaethau yn gyfuniad o wella darpariaeth, arweinyddiaeth a deilliannau ysgolion, yn ogystal â chyflawni'r daith ddiwygio.

Mae'r cynllun busnes rhanbarthol ar gyfer cyfnod o dair blynedd. Mae'r cynllun yn amlinellu'r prif flaenoriaethau a cherrig milltir, crynodeb o amcanion strategol y consortiwm, blaenoriaethau ar gyfer gwella a chofrestr risg strategol lefel uchel.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD**

**Dyddiad y Penderfyniad:** 26 Chwefror 2020

---

**PWNC**

Eitem 12:COFRESTR RISG GwE

---

**PENDERFYNIAD**

Nodwyd a derbyniwyd y Gofrestr Risg.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Pwrpas y gofrestr risg yw ffurfioli'r broses o adnabod risgiau a chymryd camau gweithredu dilynol i'w lliniaru. Trwy reoli risgiau'r rhanbarth yn effeithiol bydd GwE yn gallu cefnogi amcanion y rhanbarth, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

Mae'r gofrestr risg yn ddogfen fyw sydd yn cael ei hadolygu yn gyson. Fe'i cyflwynir i'r Cyd-bwyllgor yn flynyddol, a pan fydd risgiau newydd yn cael eu hadnabod a bod angen i'r Cyd-bwyllgor fod yn ymwybodol ohonynt.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD**

**Dyddiad y Penderfyniad:** 26 Chwefror 2020

---

## PWNC

Eitem 13:GWEITHIO GYDA'N GILYDD I WELLA YSGOLION

---

## PENDERFYNIAD

Penderfynwyd cynnal adolygiad o rôl presennol arweinydd craidd GwE a systemau rhannu gwybodaeth rhwng Awdurdodau Lleol a GwE.

---

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mewn cyfarfod diweddar o Fwrdd Rheoli GwE argymhellwyd i adolygu rôl yr Arweinydd Craidd a'r strwythur ar draws y rhanbarth, ynghyd â rhannu gwybodaeth rhwng Awdurdodau Lleol a GwE.

---

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

## TAFLEN BENDERFYNIAD

**Dyddiad y Penderfyniad:** 26 Chwefror 2020

---

**PWNC**

Eitem 14:CALENDR CYFARFODYDD 2020-21

---

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd y calendr cyfarfodydd y cynnigwyd a rhoddwyd awdurdod i'r Cadeirydd i wneud newidiadau os y bydd angen.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae'r Cyd-bwyllgor yn cyfarfod yn ôl yr angen i ddiwallu anghenion y Gwasanaeth yn unol ag amserlen y Gwasanaeth ar yr amod fod isafswm o dri cyfarfod mewn blwyddyn.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---